# Hanes E-chlysur

**Cefndir**

Dyfeisiwyd y We Byd Eang yn 1989 ac fe'i ddatblygwyd nes bod yn bosib ei ddefnyddio o'r tŷ ar linell ffôn yn 1996 gyda Compuserve ac yna yn 1999 gyda Tesco.net a Freeserve. Dechreuwyd datblygu BandEang (Broadband) yn y flwyddyn 2000 a cyrhaeddodd Caerdydd yn 2002 - 2004.

Sefydlwyd Menter Taf-Elái yn 1992 a  Menter Caerffili, Caerdydd a Bro Ogwr yn 1998.

**Sefydlu Gwefannau**

Yn y flwyddyn 2001 daeth pedwar Menter Iaith at ei gilydd – Menter RhCT, Caerffili, Bro Ogwr a Chaerdydd a llwyddwyd i gael grant gan Gronfa LloydsTSB i sefydlu gwefannau i'r Mentrau. Cwblhawyd y gwefannau yn ystod 2001-2002.






**Syniad E-chlysur**

Penodwyd Sian Lewis, yn Swyddog Datblygu Menter Caerdydd yn 2002, ac roedd hi'n awyddus iawn i greu sustem i ddanfon allan e-byst i bobl gael gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg. Aethpwyd ati i gasglu cyfeiriadau ebost gan bobl ym mhob cwr o'r ddinas ac erbyn y lansiad roedd dros 3000 wedi cofrestru. Paratowyd sustem gan Wyn Jones i ddanfon allan ebyst ar ddechrau 2003 a lansiwyd y system a alwyd yn e-chlysur ar 31 Mawrth 2003.

Wed 23/07/2003 14:02

e-chlysur Menter Caerdydd <echlysur@caerdydd.org>

Taith Eisteddfod 08/08/03

To

e-chlysur
Dyma wybodaeth am ddigwyddiad y bydd gennych diddordeb ynddo.

Achlysur: Mae seddau ar ôl ar fws Menter Caerdydd i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Oedolion £10. Plant £7.50. I sicrhau lle ar y bws, ffoniwch 029 20565658 neu ebostiwch angharadthomas@mentercaerdydd.org

Lleoliad: Meifod, ger Llanfair Caereinion, Powys.

Dyddiad: 08/08/2003. Amser: 8.30yb

Am wybodaeth bellach ffoniwch Swyddfa'r Fenter 029 20 565658

**********************************************************************************

Mae'r neges e-bost hon ac unrhyw ffeiliau sydd ynghlwm wrthi yn gwbl gyfrinachol ac wedi'u bwriadu at sylw yr unigolyn neu'r endid maent wedi eu cyfeirio ato yn unig. Gallant gynnwys gwybodaeth sy'n freintiedig yn gyfreithiol a/neu'n gyfrinachol ac os nad chi yw'r sawl y cyfeiriwyd y neges ato, yna peidiwch â chopio, dosbarthu na chymryd unrhyw gamau o ganlyniad a gan ddibynnu arni. Os ydych wedi derbyn y neges e-bost hon ar gam, a wnewch chi ein hysbysu o hyn cyn gynted â phosib a'i dileu os gwelwch yn dda. Y mae Menter Caerdydd yn parchu preifatrwydd eich cyfeiriad e-bost, ac ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei drosglwyddo i unrhyw gwmni arall ar wahan i Fenter Caerdydd. Serch hynny, fe fyddwn yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost er mwyn anfon atoch negeseuon ynglyn â'r wybodaeth/gweithgareddau penodol y dymunasoch glywed amdanynt yn y holiadur. Os nad ydych am i Fenter Caerdydd eich hysbysu yn y modd yma, cysylltwch a ni cyn gynted ag sy'n bosib.
Nid yw Menter Caerdydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill. I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad, cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Caerdydd. Am fwy o wybodaeth am Fenter Caerdydd edrychwch ar ein safle gwefan. www.mentercaerdydd.org

Risg e-bost, gall yr e-bost fod yn lygredig, wedi ei oedi, yn destun newidiad neu amhariad anawdurdodedig/heb awdurdod; ac ni dderbynir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw debyg neu ei ganlyniadau.



Yn gynnar yn 2003 datblygwyd sustem Digwyddiadur gan Penri Williams i Fenter RhCT yn bennaf i gasglu et ei gilydd y gwahanol ddigwyddiadau oedd yn cael eu cynnal yn nhair ardal y Fenter.

Ac erbyn diwedd 2003 roedd y sustem Digwyddiadur ac e-chlysur wedi eu cyfuno gan Penri er mwyn ei wneud yn weddol hawdd i ddanfon allan ebyst yn cynnwys poster jpeg am ddigwyddiadau.

# Digwyddiad Iaith Rhondda Cynon Taf
# Ychwanegu a Dileu

Dyddiad 1-31: [ ] Mis 1-12: [ ] Blwyddyn: 2017

Nifer o ddyddiau: 1

Dim ond os yn ddigwyddiad Wythnosol dewiswch dydd

(●) Dim ( ) Sul ( ) Llun ( ) Mawrth ( ) Mercher

( ) Iau ( ) Gwener ( ) Sadwrn ( ) Llun i Gwener

Amser: [ ]

Mudiad:

Beth:

Ble :

**Diddordeb :**

☐ Popeth . ☐ Plant <12. ☐ Ieuenctid 12-17. ☐ Pobl Ifanc 18+.
☐ Oedolion 21+. ☐ Dysgwyr Ifanc 12 - 25. ☐ Dysgwyr .

Peidiwch rhoi yn Saesneg os yw'n ddigwyddiad Cymraeg heb gyfieithu ar y pryd

Mudiad Saesneg:

Beth Saesneg:

Ble Saesneg:

Ffeil Poster:

[Browse...]

Rhaid i'r poster fod ar ffurf jpeg. Bydd maint y poster yn cael ei newid i 500 pixels lled wrth ei lwytho

[Cadw] [Gadael]

**e-chlysur Menter Caerdydd** 

Dyma wybodaeth am ddigwyddiad y bydd gennych diddordeb ynddo.

**Achlysur: Cymdeithas Eglwys Minny Street**
Hawl i Holi. Y panel: Aled Edwards, Emrys Evans, Rhiannon Lloyd a Helen Prosser. Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth.

Yn: Eglwys Minny Street, Cathays

Ar: 20/01/2004. Am: 7.30pm

Am wybodaeth bellach ffoniwch Swyddfa'r Fenter 029 20 565658

Mae'r neges e-bost hon ac unrhyw ffeiliau sydd ynghlwm wrthi yn gwbl gyfrinachol ac wedi'u bwriadu at sylw yr unigolyn neu'r endid maent wedi eu cyfeirio ato yn unig. Gallant gynnwys gwybodaeth sy'n freintiedig yn gyfreithiol a/neu'n gyfrinachol ac os na d chi yw'r sawl y cyfeiriwyd y neges ato, yna peidiwch â chopio, dosbarthu na chymryd unrhyw gamau o ganlyniad a gan ddibynnu arni. Os ydych wedi derbyn y neges e-bost hon ar gam, a wnewch chi ein hysbysu o hyn cyn gynted â phosib a'i dileu os gwelwch yn dda. Y mae Menter Caerdydd yn parchu preifatrwydd eich cyfeiriad e-bost, ac ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei drosglwyddo i unrhyw gwmni arall ar wahan i Fenter Caerdydd. Serch hynny, fe fyddwn yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost er mwyn anfon atoch negeseuon ynglyn â'r wybodaeth/gweithgareddau penodol y dymunasoch glywed amdanynt yn y holiadur. Os nad ydych am i Fenter Caerdydd eich hysbysu yn y modd yma, cysylltwch a ni cyn gynted ag sy'n bosib.
Nid yw Menter Caerdydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill. I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad, cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Caerdydd. Am fwy o wybodaeth am Fenter Caerdydd edrychwch ar ein safle gwefan. www.mentercaerdydd.org

Risg e-bost, gall yr e-bost fod yn lygredig, wedi ei oedi, yn destun newidiad neu amhariad anawdurdodedig/heb awdurdod; ac ni dderbynir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw debyg neu ei ganlyniadau.

Wrth i'r sustem e-chlysur gael ei brofi penderfynwyd ei ehangu i'r pedwar Menter oedd yn rhan o'r datblygiad gwreiddiol ac erbyn diwedd 2004 roedd defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r sustem.

Un elfen bwysig o'r e-chlysur oedd ei fod ar gael yn Gymraeg yn unig i siaradwyr Cymraeg ac yn ddwyieithog i Ddysgwyr a'r di-Gymraeg. Credir fod angen sicrhau gwasanaeth uniaith Gymraeg i gymaint o bobl ac sy'n bosib.

Hefyd wrth gofrestru roedd cyfle i ddewis gwahanol agweddau o waith y Fenter fel nad oedd ebyst di-angen yn cael eu danfon.

Wrth i aelodaeth Mentrau Morgannwg Gwent dyfu cyflwynwyd y sustem i Fentrau Merthyr ac Abertawe yng Ngorffennaf 2005 a Castell Nedd Port Talbot yn Hydref 2005 yna Menter Patagonia 2006 a Menter Blaenau Gwent Torfaen a Mynwy 2007.

Roedd y sustem digwyddiadur hefyd yn darparu ffrwd RSS o'r gweithgareddau gellid eu cyfuno gyda ffrydau eraill a'i darllen yn eang.

Yn 2004/2005 roedd Bwrdd yr Iaith wedi sefydlu gwefan newydd i'r Mentrau gyda fersiwn o echlysur ond doedd o ddim yn gweithio a daeth cais o rai o'r Mentrau i ddefnyddio yr Echlysur gwreiddiol.

Am gyfnod o dros deuddeg mlynedd defnyddiwyd y sustem E-chlysur yn helaeth gan y Mentrau uchod. Amcangyfrifir fod dros 7,000 o bobl wedi derbyn ebyst echlysur a bod dros 6500 o ddigwyddiadau a gwybodaeth wedi ei ddosbarthu mewn dros 6 miliwn o ebyst! Nid yw'r tabl isod yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau ond mae'n rhoi syniad. Am gyfnod roedd brwdfrydedd sylweddol gan drigolion yn Rwsia a Rwmania i gofrestru yn y sustemau e-chlysur i weld pa ddrygioni oedd yn bosib ond llwyddwyd i atal unrhyw niwed!

| Menter | Blwyddyn Cychwyn | Blwyddyn Gorffen | E-chlysur | Pobl | Cyfanswm Ebyst |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 2003 | 2010 | 1254 | 2178 | 2731212 |
| RhCT | 2004 | 2017 | 729 | 860 | 626940 |
| Bro Ogwr | 2004 | 2015 | 379 | 626 | 237254 |
| Caerffili | 2004 | 2014 | 1047 | 801 | 838647 |
| Merthyr | 2005 | 2017 | 648 | 442 | 286416 |
| Abertawe | 2005 | 2013 | 1190 | 798 | 949620 |
| Castell Nedd Port Talbot | 2005 | 2015 | 679 | 726 | 492954 |
| Patagonia | 2006 | 2013 | 49 | 102 | 4998 |
| Blaenau Gwent Torfaen Mynwy | 2007 | 2015 | 323 | 271 | 87533 |
| | | | | 6804 | 6255574 |

Mae'n rhaid fod y sustem e-chlysur yn dda oherwydd cymerodd gryn amser i'w orseddu. Penderfynodd Menter Caerdydd creu eu sustem eu hunain yn 2010 i ddanfon negeseuon oedd ddim yn seiliedig ar amser y digwyddiad. Daeth sustemau newydd megis Facebook Events a Thrydar i gynorthywo'r Mentrau. Penderfynodd nifer o Fentrau o 2013 ymlaen ddefnyddio sustem masnachol MailChimp i ddanfon negeseuon.

Daeth y sustem gwreiddiol e-chlysur i ben yn Ionawr 2017.

**menter iaith** castell-nedd port talbot **Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot**




Digwyddiad i chi:

**Dydd Llun 21/07/2014 Am: 9:00 AM**

Yn: Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

**Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot**
**Cynllun chwarae Haf**

Am wybodaeth am wasanaethau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot cliciwch ar y logo uchod
neu ffoniwch y Swyddfa 01792 864949

Gallwch weld yr holl wybodaeth a'r poster yma > Cliciwch

I newid eich dewisiadau diddordeb cliciwch yma >> Newid

I beidio derbyn e-byst e-chlysur cliciwch yma >> Dileu

Mae'r neges e-bost hon wedi ei fwriadu at sylw yr unigolyn
mae wedi ei gyfeirio ato yn unig.
Nid yw Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill.
I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad,
cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.
Am fwy o wybodaeth am Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot edrychwch ar ein gwefan
http://www.micnpt.org

e-mi@cnpt

---

**Menter Patagonia**




Digwyddiad i chi:

**Menter Patagonia**
**CWIS ANODD IAWN**

**Yn: Touring, Trelew**

**Dydd Gwener 27/06/2008 Am: 22:00**

Am wybodaeth bellach ffoniwch
Swyddfa Menter Patagonia 02965 491409 / 02945 450235

Gallwch weld yr holl wybodaeth a'r poster yma > Cliciwch

I newid eich dewisiadau diddordeb cliciwch yma >> Newid

Mae'r neges e-bost hon wedi ei fwriadu at sylw yr unigolyn
mae wedi ei gyfeirio ato yn unig.
Nid yw Menter Patagonia yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill.
I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad,
cysylltwch Ã¢ threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Patagonia.
Am fwy o wybodaeth am Menter Patagonia edrychwch ar ein gwefan
http://www.menterpatagonia.org

e@chlysur

mentercaerffili.org

BBC VOCAB

GWASANAETHAU | PLANT | GWYBODAETH | DIGWYDDIADAU | CYSYLLTU

English

## e-bost digwyddiadau

Mae Menter Iaith Caerffili yn gweithredu sustem newydd sy'n danfon e-bost i chi gyda gywbodaeth am ddigwyddiadau o ddiddordeb yn yr ardal.

Dyma holiadur i gasglu cyfeiriadau ebost a gwybodaeth am eich diddordebau. Byddwn yn cynnig gwybodaeth am yr holl weithgareddau a gyflwynir yn yr ardal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd Menter Iaith Caerffili yn sicrhau diogelwch eich cyfeiriad e-bost ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i unrhyw un arall. Bydd modd i chi orffen defnyddio'r sustem ar unrhyw deg.

Mi fydd y wybodaeth hon yn eiddo i Menter Iaith yn unig ac ni fydd yn cael ei throsglwyddo i unrhyw un arall, felly mi fydd yn gwbl gyfrinachol.

# Cofrestru

Enw :

Cyfenw :

ebost :

ebost eto :

Ardal :

Iaith :
(•) Cymraeg ( ) Dysgu ( ) Saesneg

**Diddordebau :**
☐ Popeth . ☐ Plant <12. ☐ Ieuenctid 12-17. ☐ Pobl Ifanc 18+.
☐ Oedolion 21+. ☐ Dysgwyr Ifanc 12 - 25. ☐ Dysgwyr .

[Cadw] [Gadael]

Am ragor o wybodaeth am waith a digwyddiadau'r Fenter cysylltwch â Lowri Pugh ar 01443 820913 / menter@caerffili.org

**Menter Caerffili**
**YMCA Bargod,**
**Aeron Place, Gilfach**
**Fargod, Bargod CF81 8JA**
**Ffôn: 01443 820913.**

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL / CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

## Menter Iaith

**Rhondda Cynon Taf**

Cymraeg | English

GWASANAETHAU | GWYBODAETH | CYSYLLTIADAU

Cofrestrwch i gael gwybodaeth am ddigwyddiadau. Cliciwch yma >> e@chlysur

## Digwyddiadur

| Dyddiad | Amser | Beth | Ble |
|---|---|---|---|
| 05/07/2008 Dydd Sadwrn Poster | 10yb i 5yp | Menter Iaith. Parti Ponty - Diwrnod o hwyl i'r teulu cyfan. Adloniant, sioeau, stondinau, gemau. | Parc Ynysangharad, Pontypridd |
| 11/07/2008 Dydd Gwener Poster | 8yh | Damage. Noson Gomedi Gethin Thomas a Daniel Glyn | Theatr Garth Olwg, Pentre'r Eglwys |
| 02/08/2008 Dydd Sadwrn Am 8 dydd Poster | . | Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Eisteddfod Caerdydd | Caeau Pontcanna, Caerdydd |

## Wythnosol

| Dyddiad | Amser | Beth | Ble |
|---|---|---|---|
| Wythnosol Dydd Sul | 7.30pm | Ydych chi\'n mwynhau canu a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg? Os ydych, mae Côr Godre\'r Garth yn chwilio am aelodau newydd! Ymarferion: Neuadd y Pentref, Efail Isaf, bob Nos Sul 7.30pm - 9pm. Am fwy o fanylion cysylltwch â Carole Willis ar 07977 871177 neu carolepc@aol.com | Neuadd y Pentref, Efail Isaf |
| Wythnosol Dydd Llun | 2.45 | Clwb Cymraeg gyda Vicky Pugh - pob dydd Llun 2.45 | Ysgol Gyfun y Porth |
| Wythnosol Dydd Mawrth | 2.15pm | Coffi Prynhawn | Cartref Henoed Tyddewi |
| Wythnosol Dydd Mawrth | 11.00 | Bore Cofffi Croeso i blant ddod!! | Amgueddfa Cwm Cynon |
| Wythnosol Dydd Mawrth | 1.00pm | Coffi Prynhawn | Capel Salem, Llwynypia |
| Wythnosol Dydd Mawrth | 12.20pm | Clwb Cymraeg gyda Vicky Pugh - pob dydd Mawrth - 12.20 -12.50pm - Blwyddyn 12 & 13 | Ysgol Gyfun Ioan Fedyddiwr |
| Wythnosol Dydd Mercher | 10.30am | Bore Coffi | Canolfan Bowlio, Aberpennar |
| Wythnosol Dydd Mercher | 3.05pm | Clwb Cymraeg gyda Vicky Pugh - pob dydd Mercher - 3.05 - 4.00pm am 50c - Blwyddyn 12 & 13 | Ysgol Gyfun Glynrhedyn |
| Wythnosol Dydd Iau | 12.45pm | CIC - Clwb Cinio i ddisgyblion oedran uwchradd pob dydd Llun 12.45-1.45pm - 50c | Ysgol Gyfun Rhydywaun |
| Wythnosol Dydd Iau | 11am | Clwb Cinio Croeso i bawb ymuno â Cymdeithas Gymraeg Penrhiwceiber am bach o ginio! | Clwb Bowlio Dan Do, Aberpennar |
| Wythnosol Dydd Iau | 1.30pm | Clwb Cymraeg gyda Vicky Pugh - pob dydd Iau - 1.30 - 2.00pm am 50c - Blwyddyn 12 & 13 | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| Wythnosol Dydd Iau | 12.00 | Bore Coffi Cymraeg. Bob dydd Iau am 12.00 yn y Miwni, Pontypridd. | Miwni, Pontypridd |
| Wythnosol Dydd Gwener | 10.30 | Bore Coffi Cymraeg. Bob Dydd Gwener am 10.30 Tafarn y Bwtsiars, Llantrisant | Tafarn y Bwtsiars, Llantrisant |

Cysylltwch â 01685 877183 am wybodaeth bellach



Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

communities first cymunedau yn gyntaf

RHONDDA CYNON TAF

buy.at/ Cliciwch yma i ymweld â'n siop ar-lein
Mae'r Fenter yn derbyn comisiwn ar bopeth rydych yn prynu

**Menter Bro Ogwr**




Gwybodaeth i chi:

**PWYSIG**

**E-chlysur Menter Bro Ogwr**

**Mae hen system e-chlysur Menter Bro Ogwr yn dod i ben. Rydym wedi gwneud pob ymdrech i drosglwyddo eich manylion i'r system newydd ond er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth a newyddion diweddaraf gan Menter Bro Ogwr, ewch i ein gwefan www.menterbroogwr.org a llenwch y ffurflen gofrestru ar ochr dde'r dudalen.**

**Diolch yn fawr**

Am wybodaeth am wasanaethau Menter Bro Ogwr cliciwch ar y logo uchod
neu ffoniwch y Swyddfa 01656 732200

Gallwch weld yr holl wybodaeth a'r poster yma > Cliciwch

I newid eich dewisiadau diddordeb cliciwch yma >> Newid

I beidio derbyn e-byst e-chlysur cliciwch yma >> Dileu


Mae'r neges e-bost hon wedi ei fwriadu at sylw yr unigolyn
mae wedi ei gyfeirio ato yn unig.
Nid yw Menter Bro Ogwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill.
I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad,
cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Bro Ogwr.
Am fwy o wybodaeth am Menter Bro Ogwr edrychwch ar ein gwefan
http://www.menterbroogwr.org




**Menter Merthyr Tudful**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*




Digwyddiad i chi:

**Dydd Mawrth 13/12/2016 Am: 6:00 / 6:30**

Yn: Theatr Soar

**Menter Iaith Merthyr Tudful**
**Nos Fawrth nesaf mae ein Noson Garolau yma yn Soar! Yn cymryd rhan yn y noson bydd Ysgol Santes Tudful, Ysgol Pen y Dre, Ysgol Rhydywaun, Bale Soar a Chôr Merthyr Aloud, Bydd y noson yn dechrau am 6 gyda'r gyngerdd yn cychwyn am 6:30. Mae'n argoeli i fod yn noson dda, felly cofiwch gael eich tocynnau! Mae tocyn yn £2 yr un a gallwch eu cael o dderbynfa Soar, neu ffoniwch 01685 722176 i archebu!**

Am wybodaeth bellach ffoniwch
Swyddfa Menter Merthyr Tudful 01685 722176

Gallwch weld yr holl wybodaeth a'r poster yma > Cliciwch

I newid eich dewisiadau diddordeb cliciwch yma >> Newid
I ddileu eich cyfrif e-chlysur cliciwch yma >> Dileu


Mae'r neges e-bost hon wedi ei fwriadu at sylw yr unigolyn
mae wedi ei gyfeirio ato yn unig.
Nid yw Menter Merthyr Tudful yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill.
I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad,
cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Merthyr Tudful.
Am fwy o wybodaeth am Menter Merthyr Tudful edrychwch ar ein gwefan
http://www.merthyrtudful.com

**Menter Iaith Abertawe**




Digwyddiad i chi:

**Menter Iaith Abertawe**
**GYG - Dewch i fwynhau Supergene a Random Elbow Pain yn chwarae yn fyw yn Nhy Tawe, Abertawe**

**£3**

**16 +**

**Yn: Ty Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe. SA1 4EW.**

**Dydd Gwener 27/07/2007 Am: 20.00**

Am wybodaeth bellach ffoniwch
Swyddfa Menter Iaith Abertawe 01792 460906

Gallwch weld yr holl wybodaeth a'r poster yma > Cliciwch
Efallai bydd angen gwasgu right click uchod i lawr lwytho'r poster


Mae'r neges e-bost hon wedi ei fwriadu at sylw yr unigolyn
mae wedi ei gyfeirio ato yn unig.
Nid yw Menter Iaith Abertawe yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw achlysur sydd wedi ei drefnu gan unrhyw fudiadau eraill.
I gadarnhau unrhyw achlysur neu mewn achos o ohiriad,
cysylltwch â threfnwyr yr achlysur ac nid Menter Iaith Abertawe.
Am fwy o wybodaeth am Menter Iaith Abertawe edrychwch ar ein gwefan
http://www.menterabertawe.org